CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 8 Mawrth 2016 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Owain Owen, Arthur Jones, Trefor Jones, John T Rowlands, Ffion Roberts, Hugh Williams

Ymddiheuriadau Glyn Hughes, Peredur Hughes, Geraint Owen, Iona Phillips, Is-Cadeirydd Ifan Rowlands, Cynghorydd John Griffith (Talybolion)

Ychwanegol Mr Haydn Edwards a Mr Alwyn Roberts ynglŷn ag Eisteddfod Genedlaethol 2017

1 Cofnodion cyfarfod Chwefror 2016

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Chwefror 2016 gyda Arthur Jones yn cynnig ag Owain Owen yn eilio.

2 Datgan diddordeb : neb

3 Materion â codwyd

3.1 *Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017*

Croesawyd Mr Alwyn Roberts a Mr Haydn Edwards o Bwyllgor Cyllid Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017 i'r cyfarfod. Roeddynt yn ddiolchgar am gefnogaeth y Cyngor o £2,000 at darged £4,000 i ardal Thref Alaw i'r Eisteddfod.

Eglurwyd y Cadeirydd y bod nifer o drigolion yn cyfrannu at Apêl yr Eisteddfod yn barod ond i nifer o wahanol ardaloedd am fod y gymuned ar wasgar a gyda nifer o ffyddlondebau wedi ei sefydlu ers pell ffordd. Awgrymwyd Mr Roberts efallai bu Tref Alaw yn cydweithio'n anffurfiol gyda chymdogion. Hefyd gofynnwyd am enwau pobl yr ardal bysa gyda diddordeb cyfrannu'n bellach. Cadeirydd, Aelodau a'r Clerc i feddwl am enwau i anfon ymlaen.

Mae ganddynt gynllun o 20:20 lle mae'r Pwyllgor Eisteddfod wedi gofyn i unigolion gyfrannu £20 am 20 mis (£400) sy'n dod i £500 gyda 'Gift Aid'. Nad oeddynt yn gallu enwi neb o Thref Alaw oedd wedi cymeryd hyn i fynnu.

4 Ceisiadau am gymorth ariannol : S137 LGA 1972

Penderfynwyd cefnogi 'Cylch Meithrin Llanfaethlu' ag 'Y Rhwyd' am £100 yr un.

5 Unrhyw fater arall

Roedd tri cais cynllunio wedi ei dderbyn: dau oedd wedi ei drafod o'r blaen ond gyda mân newidiadau – roedd y Clerc wedi delio gyda rhain – Bronallt, Llanddeusant [47C147] ag Eglwys Llechcynfarwy [47C144B/LB]

Yn ogystal oedd cais i adeiladu stablau ar dir ger Rectory, Llantrisant [47C92B] – dim gwrthwynebiad.

Taliadau:	I mewn		
	Allan	Un Llais – aelodaeth 2016/17	£71